**GWEINIDOGION Y DEYRNAS UNEDIG SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**201 - Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 28 Medi 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 14/10/20 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 13/10/20 |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8C, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau'n ymdrin â materion sy'n deillio o'r Protocol ar Iwerddon / Gogledd Iwerddon yng Nghytundeb Ymadael yr UE ("y Protocol"), neu'n gysylltiedig ag ef.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynhyrchion Tybaco a Chynhyrchion Mewnanadlu Nicotin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019 (OS 2019/41) i ystyried cynnwys Cyfarwyddeb 2014/40/EU yn Atodiad 2 i'r Protocol. Mae angen y diwygiadau i sicrhau y bydd Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig 2016 (a weithredodd y Gyfarwyddeb) (OS 2016/507) yn parhau i weithredu ar ôl diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu, a hefyd i ddiweddaru'r ddarpariaeth drosiannol a wnaed i

ganiatáu i rai cynhyrchion sydd wedi'u rhoi ar y farchnad yn y Deyrnas Unedig cyn diwrnod cwblhau'r Cyfnod Gweithredu barhau i gael eu cyflenwi ym Mhrydain Fawr ar y diwrnod hwnnw ac wedi hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio Rheoliadau Sigaréts Electronig (Ffioedd) 2016 (OS 2016/521) a Rheoliadau Tybaco a Chynhyrchion Cysylltiedig (Ffioedd) 2017 (OS 2019/409) fel bod un hysbysiad a ffi adrodd flynyddol yn parhau i fod yn daladwy os yw cynnyrch i gael ei gyflenwi ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 4 Tachwedd 2020, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â diogelu iechyd ac maent o fewn cymhwysedd datganoledig, ond gwnaeth Llywodraeth y DU y Rheoliadau hyn heb geisio cydsyniad. Nid yw'n glir pam y methodd Llywodraeth y DU â cheisio cydsyniad. Mae'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg wedi ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Iechyd i fynegi pryderon na cheisiwyd cydsyniad ac i roi cydsyniad.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.